

Bwletin Awdurdod S4C - Ionawr 2002

Mae'r isod yn gosod allan y prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar 21 Rhagfyr 2001.

Pêl-Droed

Nodwyd bod trafodaethau gyda'r BBC wedi arwain at gytundeb y bydd pêl-droed Cynghrair Cymru yn cael ei ddarlledu ar brynhawn Sul yn rhaglen *Y Clwb*.

Gwobrau BAFTA

Cyfeiriwyd at y ffaith bod '*Aunt Tiger*' sef un o'r chwedlau yn y gyfres Chwedlau'r Byd Wedi'u Hanimeiddio wedi ennill un o'r categorïau yng ngwobrau BAFTA Prydain. Llongyfarchwyd pawb yn gysylltiedig â'r llwyddiant hwn.

Gwobr Undeb Amaethwyr Cymru

Adroddwyd bod S4C wedi ennill gwobr Ffon Bugail yr FUW am gyfraniad arbennig i fywyd gwledig. Roedd hyn yn cydnabod gwerth rhaglenni fel *Cefn Gwlad*, *Rasus*, ac yn arbennig *Ffermio* – yn enwedig yn ystod cyfnod anodd clwy'r traed a genau. Fel arfer yr oedd y wobwr yn cael ei roi i unigolyn ond y tro hwn credwyd bod S4C fel corff yn haeddu cydnabyddiaeth a chlod. Cyflwynwyd y Ffon Bugail gan Bob Parry, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, a bu Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Amaethyddiaeth hefyd yn bresennol.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru

Adroddwyd bod y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 17 Rhagfyr wedi'i ohirio gan fod angladd yr Aelod Seneddol, Ray Powell, ar y diwrnod hwnnw. Roedd trefniadau yn cael eu gwneud i aildrefnu'r cyfarfod ar gyfer dechrau mis Ionawr.

Cyfarfod gyda'r Gweinidog Dros Dwristiaeth, Ffilm a Darlledu

- (a) Adroddodd y Prif Weithredwr ar y cyfarfod gafodd y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd ac yntau gyda Dr Kim Howells, AS, ynghyd â gweision sifil hyn yn y DCMS ar 6 Rhagfyr 2001 i drafod cais S4C am arian ychwanegol. Cafwyd trafodaeth fuddiol a'r gobaith oedd y byddai'r cais yn llwyddiannus yn y cylch gwariant cyhoeddus byddai'n cychwyn ym mis Chwefror.
- (b) Yn yr un cyfarfod gyda Kim Howells, AS, codwyd nifer o bwyntiau oedd yn ymwneud â'r Mesur Cyfathrebu y bwriadwyd ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2002. Roedd S4C wedi cyflwyno cais yn barod i ehangu ei phwerau i gynnwys cynnig S4C2 fel gwasanaeth cyhoeddus o dan oruchwyliaeth yr Awdurdod. Cafwyd trafodaeth fuddiol hefyd ynglŷn â phwysigrwydd sicrhau lle teilwng i raglenni Cymraeg ar EPGs y llwyfannau digidol newydd. Roedd achos arbennig yn codi ynglŷn â rhaglenni Planed Plant S4C ar EPG Kids Channel Sky. Cytunodd y Gweinidog i edrych mewn i'r pwyntiau hyn ymhellach.

Yr Amserlen Newydd

Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r amserlen newydd yn gweithredu o fis Ionawr 2002. Atgoffwyd yr Aelodau y byddai yna gynnydd yn yr amser a roddir i raglenni plant. Hefyd, byddai *Heno* yn diflannu a'r rhaglen newydd *Wedi Chwech* yn ymddangos yn ei lle; edrychwyd ymlaen at weld beth fyddai'r ymateb iddi.

Rhaglenni'r Nadolig

Tynnwyd sylw at y rhaglenni i'w gweld dros gyfnod y Nadolig a thynnwyd sylw arbennig at y ffilm *Eldra*; ffilm a ystyriwyd i fod yn un hyfryd ac addas iawn i'w ddarlledu ar ddydd Nadolig.

Adroddiad Ariannol

Derbyniwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ar y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2001. Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, roedd S4C wedi dysgu taw'r ffigwr ar gyfer chwyddiant ym mis Tachwedd oedd 0.9%. Roedd yn hyn yn golygu y byddai S4C yn derbyn £1 miliwn yn llai nag oedd wedi disgwyl y byddai'n ei gael oddi wrth y DCMS yn 2002. Byddai hyn yn creu sefyllfa gyllidebol fwy tyn yn 2002 a byddai'n rhaid cadw llygad gofalus iawn ar y gyllideb dros y flwyddyn nesaf; roedd hefyd yn golygu na fyddai rhai pethau y gobeithiwyd eu gwneud bellach yn gallu digwydd.

Cynllun Corfforaethol 2002-04

Rhodddwyd gerbron yr Awdurdod Gynllun Corfforaethol ar gyfer y tair blynedd yn cychwyn 2002. Cytunodd yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf i fframwaith strategol y Cynllun a gofynnwyd i'r Aelodau nawr gytuno i'r targedau penodol ar gyfer 2002. Trafodwyd y targedau a chytunwyd y dylid cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2002-04 ar yr amod bod sylwadau'r Aelodau yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn terfynol.

[*Nodyn:* Mae'r Cynllun Corfforaethol bellach wedi'i gyhoeddi ac ar gael ar safle we S4C.]

Rhaglen Waith yr Awdurdod 2002

Cytunodd yr Awdurdod bod y rhaglen waith awgrymedig ar gyfer y flwyddyn 2002 yn dderbyniol.

Adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad oddi wrth y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2001. Yn benodol trafodwyd materion o gydymffurfiaeth yn codi o'r gyfres *Llwyth o Docs* :

(a) **Gwylio Teuluol –**

- (i) Roedd y Grwp wedi ystyried nifer o glipiau o'r gyfres hon a ddarllledwyd am 8.30pm. Tynnwyd dau glip arbennig at sylw'r Awdurdod fel esiamplau o'r hyn oedd wedi bod yn rhan o drafodaeth y Grwp sef: un olygfa o natur rywiol a'r llall yn ymwneud â chreulondeb at anifeiliaid. Yr hyn yr oedd y Grwp Cydymffurfiaeth yn gofyn i'r Awdurdod ystyried felly oedd: a oedd *Llwyth o Docs* wedi torri'r canllawiau o ran beth oedd yn addas ar gyfer gwylio teuluol cyn 9.00pm.
- (ii) Cafwyd trafodaeth ofalus a ganolbwyntiodd ar y ddau glip penodol a welwyd a mynegwyd gwahanol farnau gan yr Aelodau parthed y ddwy olygfa. Wedi pwyso a mesur yr holl safbwyntiau a fynegwyd cytunwyd:
- fod yr olygfa yn ymwneud â'r llun o'r ferch noeth yn torri'r canllawiau gan ei fod tu hwnt i ddisgwyliadau'r gwyliwr fel rhan o raglen a ddarllledwyd cyn 9.00 pm. Yn sgil hyn, dylai'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni gyfleu natur yr hyn oedd yn pryderu'r Aelodau i'r comisiynwyr a thrwyddynt hwy i'r tîm cynhyrchu.
 - nid oedd yr olygfa lle'r oedd milfeddyg yn ymwneud â dafad wedi torri'r canllawiau o ran gofynion darlledu cyn 9.00 pm a'r 'watershed' ond yr oedd wedi mynd reit i fyny at y ffiniau.

(b) **Portread Cymeriad Croenddu –**

- (i) Awgrymodd y Grwp Cydymffurfiaeth fod y portread o gymeriad croenddu yn codi cwestiynau gwahanol. Yn gyntaf, a oedd hi bellach yn dderbyniol i actor gwyn chwarae cymeriad dyn du gan goluro ei hun, ac yn ail, a oedd natur y cymeriad a bortreadir yn dderbyniol. Wrth i'r Aelodau drafod y mater dan sylw daeth i'r amlwg fod hwn yn bwnc cymhleth ac yn rhywbeth y dylid rhoi ystyriaeth mwy manwl iddo.
- (ii) **Cytunwyd:** Cyn i'r Aelodau ddod at benderfyniad, dylai swyddogion/comisiynwyr S4C gael cyfle i esbonio eu safbwynt nhw ar y mater hwn gan gyflwyno papur i gyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Ionawr.

Cyflwyniad gan y Pennaeth Ymchwil a Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol

Dechreuodd Rheolwyr Gyfarwyddwr S4C Masnachol y cyflwyniad gan esbonio yn fras natur y darlledwyr yn Unol Daleithiau America; yr Almaen, yr Eidal, Sbaen, Ffrainc a'r modd yr oedd teledu digidol (daearol, lloeren a chebl) yn datblygu yn y gwledydd hynny a hefyd i ba raddau yr oedd y gwahanol ddarlledwyr yn dibynnu ar incwm hysbysebu. Dangoswyd yna sawl graff yn adlewyrchu sut rhagwelir y byddai Cymru yn cymharu gyda gweddill y Deyrnas Unedig a'r gwledydd eraill yn Ewrop dan sylw o ran datblygiadau'r gwahanol lwyfannau o'r presennol hyd at 2010.

Cymerodd Carys Evans, Pennaeth Ymchwil S4C, y cyflwyniad ymlaen drwy esbonio y sefyllfa bresennol o ran faint o gartrefi a faint o siaradwyr Cymraeg oedd yn derbyn digidol a faint o'r rheiny oedd yn derbyn lloeren, cebl neu ddaearol. Ymhelaethodd ar y math o bobl oedd yn fwy tebygol o fod mewn cartrefi amsianellog. Esboniodd hefyd yr effaith negyddol ar ffigurau gwyllo nid yn unig S4C ond hefyd BBC1, BBC2, ITV yr oedd patrymau gwyllo y rheiny mewn cartrefi amsianellog yn ei gael, gyda ffigurau gwyllo sianelau cebl a lloeren yn codi.

Gwerthfawrogodd yr Aelodau y cyflwyniad a roddwyd. Roedd wedi rhoi cyd-destun i'r gostyngiad yn y ffigurau gwyllo roedd S4C wedi'i weld yn ddiweddar a gwybodaeth gefndirol defnyddiol iawn ar gyfer y cyfarfod arbennig byddai'r Awdurdod yn ei gynnal ym mis Mawrth.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ymchwil – Perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol.